Mae'r wisg ysgol yn un o'r arwyddion allanol hynny sy'n galluogi'r gymdeithas leol i adnabod a ffurfio barn am fyfyrwyr Ysgol John Bright. Er mwyn yr ysgol a'r myfyrwyr, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cyflwyno'u hunain mewn ffordd gadarnhaol a derbyniol, gan roi'r argraff o sefydliad disgybledig a threfnus. Disgwylir i fyfyrwyr Ysgol John Bright ddod i'r ysgol bob dydd mewn gwisg ysgol daclus a glân, gan ddangos yn glir eu bod yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Cyflwyniad

Yn ôl polisi Ysgol John Bright, rhaid i bob myfyriwr wisgo gwisg ysgol yn yr ysgol neu wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd a drefnwyd gan yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Mae Corff Llywodraethol yr Ysgol yn penderfynu ar y polisi ar gyfer gwisg ysgol a chyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod y myfyrwyr yn dilyn y rheolau. Cyfrifoldeb y rhieni a'r myfyrwyr yw sicrhau bod y myfyriwr yn cyrraedd yr ysgol bob dydd mewn gwisg briodol.

Rydym yn seilio'n polisi ar y syniad bod gwisg ysgol yn:

- Hybu balchder yn yr ysgol.
- Ymarferol, smart a fforddiadwy.
- Ffordd o adnabod myfyrwyr yr ysgol ac yn creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn.
- Hybu cydraddoldeb ymhlith myfyrwyr o ran eu hymddangosiad.

Nodau ac Amcanion

- Sicrhau bod pob aelod o'r gymuned (rhieni, staff a myfyrwyr) yn deall yr anghenion o ran gwisg ysgol.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn gwisgo'r wisg gywir o ganlyniad i fonitro cyson a rheolaidd y staff.
- I gysylltu â rhieni a cheisio sicrhau eu cydweithrediad os torrir rheolau gwisg ysgol.
- I osod sancsiynau priodol pan dorrir rheolau gwisg ysgol yn rheolaidd, yn gyntaf gan y Tiwtor Dysgu, yna gan y Cyfarwyddwyr Dysgu ac, yn olaf, ar ôl cael eu cyfeirio, gan aelod o'r Tîm Arwain.
- I sicrhau bod unrhyw deulu gydag anawsterau ariannol yn ymwybodol o'r cymorth a gynigir gan yr ysgol o ran gwisg ysgol ac i sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei gynnig mewn ffordd synhwyrol a sensitif.

Ymarfer

Rhoddir disgrifiad clir o'r gofynion gwisg ysgol ym mhob darn o wybodaeth a anfonir at ddarpar rieni, yn ystod y cyfnod sefydlu a nosweithiau agored ac ym mhrosbectws yr ysgol. Atgoffir rhieni o'r safonau disgwyliedig yng nghylchlythyr y Prifathro i rieni. Mae Tiwtoriaid Dysgu'n atgoffa myfyrwyr yn rheolaidd a cheir copi o'r gofynion gwisg ysgol ar gyfer pob blwyddyn yng Nghynllunwyr y Myfyrwyr.

Mae Tiwtoriaid Dysgu'n monitro ymddangosiad eu grŵp tiwtor yn barhaus, gan nodi'r sawl sy'n troseddu'n rheolaidd a chymryd camau priodol drwy osod sancsiynau "lefel-isel" yn y lle cyntaf.
Mae athrawon pwnc yn monitro dosbarthiadau o fewn gwersi, gan ddelio ar unwaith ag unrhyw fân-droseddu o ran gwisg, a chan gyfeirio troseddau mwy difrifol neu reolaidd i'r Tiwtor Dosbarth.

Mae'r Cyfarwyddwyr Dysgu yn ymyrryd pan nad yw'r Tiwtor Dysgu wedi llwyddo i sicrhau gwelliant yn ymddangosiad y myfyriwr. Mae'r Cyfarwyddwyr Dysgu yn delio â'r mater mewn ffordd sensitif, drwy geisio canfod, yn gyntaf, unrhyw amgylchiadau penodol y dylid eu cymryd i ystyriaeth cyn gosod sancsiynau, cyn cysylltu â'r rhieni a gosod sancsiynau mwy difrifol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau cefnogaeth a chydweithrediad rhieni ac awgrymu strategaethau i ddelio ag achosion anodd.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o'r staff dysgu i fonitro a chynnal y rheolau gwisg ysgol yn yr ysgol ac ar safle'r ysgol.

Dylai unrhyw riant sy'n wynebu anawsterau ariannol gysylltu â'r Cyfarwyddwyr Dysgu i drafod, yn gyfrinachol, y posibilrwydd o gael cymorth gan yr ysgol i brynu rhai eitemau o'r wisg ysgol. Y maen prawf sylfaenol ar gyfer sicrhau cymorth yw bod yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim. Gellir cynnig cymorth o'r fath ar gyfer eitemau fel blaser, tei, sgertiau, cit AG.

Rôl Rhieni

Gofynnwn i bob rhiant gefnogi'r polisi gwisg ysgol. Credwn fod gan rieni ddyletswydd i anfon eu plant i'r ysgol yn y wisg gywir ac yn barod am eu gwaith ysgol. Un o gyfrifoldebau rhieni yw sicrhau bod eu plentyn yn gwisgo'r wisg gywir a bod y wisg honno'n lân ac mewn cyflwr da.

Ceir hyd i'r manylion am y wisg ysgol ar ein gwefan a hefyd yn y prosbectws.